# Datgan Parth Cyfyngedig (Ffliw Adar)

Cadarnhaodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru fod ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yng Nghymru yn unol ag erthygl 46(1) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("Y Gorchymyn").

Yn unol ag erthygl 55(1) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru yn datgan yr ardal a ddisgrifir yn Atodiad 1 i'r Datganiad hwn yn barth cyfyngedig ffliw adar pathogenig isel lle mae'r mesurau a nodir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn (fel y'i dyblygir yn yr atodiad) yn gymwys o 19:00 ar 9 Awst 2025 hyd nes y caiff y Datganiad hwn ei dynnu'n ôl neu ei ddiwygio drwy ddatganiad pellach.

Mae'r parth cyfyngedig ffliw adar pathogenig isel wedi'i farcio ar y map yn Atodiad 2.

Mae'r Datganiad hwn yn dirymu a disodli'r Parth Rheoli Dros Dro sydd wedi'i ganoli ar gyfeirnod grid SH4689987876 a ddatganwyd am 18:30 ar 08 Awst 2025.

**Llofnodwyd:** Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

**Dyddiad:** am 19:00 ar 9 Awst 2025

O dan awdurdod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

*Gall peidio â chydymffurfio â'r Datganiad hwn fod yn drosedd o dan adran 72 neu 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.*

Mae copïau o'r Datganiad hwn a'r Gorchymyn ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

---

[1] O.S. 2006/2927 (Cy.262) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Orchymyn Ffliw Adar (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023 OS 2023/1179 (Cy.206).

**Atodiad 1**

**Parth dan Gyfyngiadau**

Mae'r parth cyfyngedig ffliw adar pathogenig isel yn cynnwys y rhan honno o Gymru sydd wedi'i chynnwys o fewn cylch o radiws 1 cilomedr, wedi'i ganoli ar gyfeirnod grid SH4689987876. Cyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000].

**Y mesurau sy'n gymwys yn y Parth Cyfyngu:**

**Cyfyngiadau ar symud dofednod, adar caeth eraill a mamaliaid ar ac oddi ar safle**

**1.** (1) Yn amodol ar is-baragraff (2), ni chaiff unrhyw berson symud dofednod, adar caeth eraill na mamaliaid i neu o safle yn y parth lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill, oni bai bod y symud wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i anifeiliaid anwes—
(a) sydd ond yn cael mynediad i'r rhan o'r safle lle mae pobl yn byw;
(b) sydd ddim yn dod i gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle; ac
(c) sydd heb fynediad at unrhyw gewyll neu ardaloedd ar y safle lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill.

**Mesurau bioddiogelwch**

**2.** Mae'n rhaid i'r meddiannydd ac unrhyw berson sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle yn y parth lle cedwir dofednod, neu adar caeth eraill neu wyau—
(a) gymryd mesurau bioddiogelwch fel y mae'n ystyried sydd eu hangen i leihau'r risg o ledaenu ffliw adar i neu o'r safle; a
(b) cydymffurfio ag unrhyw ofynion bioddiogelwch y mae arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad iddo, yn eu gosod.

**Sarn, tail dofednod a slyri**

**3.** Ni chaiff unrhyw berson symud na lledaenu sarn dofednod a ddefnyddiwyd, tail dofednod na slyri dofednod yn y parth oni bai bod arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol wedi trwyddedu hynny.

**Crynoadau o ddofednod**

**4.** Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu i ddofednod neu unrhyw adar caeth eraill gael eu casglu ynghyd mewn unrhyw ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu unrhyw grynhoad arall yn y parth.

**Rhyddhau adar hela**

**5.** (1) Ni chaiff unrhyw berson ryddhau adar hela.

(2) At ddiben y paragraff hwn, mae adar hela'n cynnwys ffesantod, petris, grugieir coch, grugieir du neu rugieir gwyn neu hwyaid sydd wedi'u magu ar gyfer eu saethu.

**Cyfyngiadau ar symud dofednod, adar caeth eraill a wyau yn y parth**

**6.** Ynghylch paragraff 8, ni ddylid symud unrhyw ddofednod, adar caeth eraill neu wyau i mewn i'r parth neu o fewn y parth (ac eithrio trwy'r parth ar y ffordd neu'r rheilffordd heb stopio), oni bai eu bod wedi'u trwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

**Cyfyngiadau ar symud dofednod a wyau allan o'r parth**

**7.** (1) Yn amodol ar baragraff 8, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddofednod neu wyau allan o'r parth, oni bai bod y symud yn—
(a) symudiad a nodwyd yn is-baragraff (2); ac
(b) wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol.

(2) Mae'r symudiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yn symudiadau—
(a) dofednod i'w lladd mewn lladd-dy dynodedig;
(b) dofednod i safle neu ran o safle ble nad oes dofednod yn cael eu cadw;
(c) cywion diwrnod oed o wyau sy'n tarddu o'r parth neu o wyau sydd wedi dod i gysylltiad ag wyau o'r fath;
(ch) cywion diwrnod oed o wyau sy'n tarddu y tu allan i'r parth, os yw'r ddeorfa yn cael ei gweithredu yn y fath fodd fel bod cywion ac wyau o'r fath yn cael eu cadw ar wahân i gywion a wyau diwrnod oed sy'n tarddu o'r parth;
(d) wyau sy'n deor—
(i) i ddeorfa ddynodedig; neu
(ii) i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol
(os, yn y ddau achos, yw'r wyau a'u deunydd pacio wedi'u diheintio cyn eu danfon);
(dd) wyau i ganolfan pacio wyau ddynodedig mewn pecynnu tafladwy neu becynnu sydd wedi'i lanhau a'i ddiheintio, yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol;
(e) wyau i ffatri brosesu wyau y tu mewn neu'r tu allan i'r parth;
(f) wyau ar gyfer eu gwaredu.

**Dosbarthu wyau i safleoedd cyfanwerthu a manwerthu**

**8.** Nid yw paragraff 6 a 7 yn berthnasol i symud wyau bwrdd yn uniongyrchol i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu, neu'n dilyn symudiad o'r fath.

**Carcasau**

**9.** Rhaid i feddiannydd unrhyw safle o fewn y parth sicrhau bod carcasau yn cael eu gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol (oni bai bod yr arolygydd milfeddygol yn trwyddedu eu defnyddio ar gyfer diagnosis o glefyd).

**Glanhau a diheintio cerbydau**

**10.** Mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n symud unrhyw ddofednod, aderyn caeth arall, cig, porthiant, tail, slyri, sarn neu unrhyw beth arall a allai fod wedi'i halogi, lanhau a diheintio'r cerbyd ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd i gludo'r peth hwnnw cyn gynted ag y bydd wedi'i ddadlwytho, yn unol ag erthygl 66.

## Atodiad 2

**Map sy'n dangos y Parth Cyfyngedig Ffliw Adar Pathogenig Isel wedi'i ganoli ar gyfeirnod grid SH4689987876.** Cyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000].

**Low Pathogenic Avian Influenza, 1km Restricted Zone,**
**Near Dulas, Ynys Môn**
**09 August 2025**




Animal & Plant Health Agency
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey AC0000815687

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans AC0000815687

0 0.75 1.5 Kilometers

Created By: NDCC GIS
On: 09/08/2025 Scale - 1:35,000 at A4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government